

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir a chyrrff llywodraethu ysgolion yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig. Awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am bennu a chymhwyso trefniadau derbyn ysgol.

Mae gan rieni hawl i wneud cais am le yn unrhyw ysgol yr hoffent i'w plentyn/plant fynd iddi. Mae gan rieni y gwrthodir lle mewn ysgol i'w plentyn, neu bobl ifanc y gwrthodir lle iddynt mewn chweched dosbarth ysgol, hawl statudol i apelio i banel apêl annibynnol.

Gallai'r pandemig Coronafeirws parhaus a mesurau i leihau lledaeniad y feirws COVID19 effeithio ar allu awdurdodau derbyn i gynnal gwrandawiadau ar gyfer apelau derbyn i ysgolion wyneb yn wyneb, sicrhau bod digon o aelodau ar y panel a chadw at yr amserlen berthnasol.

Roedd Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) Coronafeirws (Diwygio) (Diwygio) 2020 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) 2005 a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion dros dro er mwyn caniatáu i apelau derbyn gael eu cynnal tan 30 Medi 2021 er gwaethaf y cyfyngiadau sydd ar waith i gyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws. Gall unrhyw apelau sydd ar waith ar 30 Medi 2021 gael eu cwblhau o dan y trefniadau dros dro hyn.

Symudodd Cymru i lefel rhybudd sero ar 7 Awst 2021. Er mwyn sicrhau bod apelau'n annibynnol, rhaid defnyddio lleoliad niwtral. Gallai hyn fod o fewn adeiladau'r awdurdod lleol neu leoliad niwtral arall. Fodd bynnag, efallai bydd asesiadau risg unigol yn penderfynu na chaniateir cynnal apêl mewn mangre a ddefnyddir fel arfer at y diben hwn. Yn ogystal, rhaid i unigolion ynysu am 10 diwrnod os oes ganddynt symptomau Covid-19 neu os byddant wedi cael canlyniad prawf cadarnhaol. Gallai hyn effeithio ar argaeledd aelodau'r panel apêl neu ar allu apelwyr i fod yn bresennol yn bersonol ar unrhyw un adeg. Felly, ystyrir ei bod yn ddoeth ymestyn y trefniadau presennol i sicrhau y gall apelau derbyn barhau tan ddiwedd Medi 2022 er gwaethaf unrhyw anawsterau neu gyfyngiadau ymarferol a allai fod ar waith i gyfyngu ar ledaeniad y feirws.

Felly, mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) Coronavirus) (Diwygio) (Diwygio) 2021 yn ymestyn y newidiadau presennol tan 30 Medi 2022. Bydd unrhyw apelau sydd yn aros eu tro ar 30 Medi 2022 yn gallu cael eu cwblhau o dan y trefniadau dros dro hyn.

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn gwneud y canlynol:

- Maent yn datgan tu hwnt i unrhyw amheuaeth nad oes rhaid i apelau ddigwydd wyneb yn wyneb. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod rhaid i apêl roi cyfle i'r apelydd ymddangos a gwneud sylwadau llafar sydd, yn ein barn ni, yn rhoi hyblygrwydd. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau diwygio yn darparu'n benodol yr hyblygrwydd i gyfarfod yn rhithiol neu dros y ffôn.
- Maent yn datgymhwyso'r gofynion arferol sy'n ymwneud â'r lleoliad ar gyfer apelau derbyn pan fônt yn digwydd o bell neu ar bapur yn hytrach nag wyneb yn wyneb.
- Maent yn llacio'r rheolau o ran yr hyn sy'n digwydd os bydd un o aelodau panel o dri yn tynnu'n ôl (dros dro neu'n barhaol) i ganiatáu i'r panel barhau â'r apêl a'i chwblhau fel panel o ddau.

Mae'n dal yn ofynnol i Baneli Apelau Derbyn ddefnyddio gwasanaethau clerig i roi cyngor ar y gyfraith ynghylch derbyniadau, cadw cofnod cywir o'r gwrandawriad a sicrhau bod y weithdrefn yn deg. Mae'r broses gwyno yn aros fel ag y mae fel bod rhieni'n parhau i allu cwyno am gamweinyddu ar ran y panel apêl.

Diben y diwygiadau dros dro yw rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i awdurdodau derbyn reoli apelau yn ystod y pandemig yn y ffordd sy'n gweddu orau i amgylchiadau lleol, a sicrhau bod teuluoedd sy'n apelio yn erbyn penderfyniad derbyn yn cael eu cefnogi ac nad ydynt o dan anfantais oherwydd unrhyw fesurau a allai fod ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r newidiadau'n golygu y bydd gan awdurdodau derbyn ddigon o amser i ddelio â'r penllanw blynyddol mewn apelau ar ran plant a fydd yn dechrau ysgolion newydd ddechrau mis Medi 2022. Bydd gan rieni'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn i unrhyw ysgol.

Mae mesurau diogelu wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Diwygio Apêl 2021 i sicrhau bod gan apelwyr ddigon o amser a rhybudd o hyd i gyflwyno apelau, ac y bydd eu hapelau'n parhau i gael eu clywed yn deg, cyn gynted â phosibl, ac yn unol â gofynion cyfiawnder naturiol.

Mae awdurdodau derbyn yn cefnogi estyniad i'r diwygiadau dros dro, sy'n awgrymu bod yr hyblygrwydd a roddir gan y diwygiadau dros dro yn fanteisiol i awdurdodau lleol ac apelwyr.

## ADRAN 7. CASGLIAD

### 7.1 Ym mha ffordd y mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Rydym wedi ymgysylltu â nifer o bobl a sefydliadau â diddordeb yn y maes, gan gynnwys grŵp awdurdodau derbyn i ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru ac awdurdodau esgobaethol ynghyd â nifer o swyddogion awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am apelau.

## **7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?**

Yr effaith gadarnhaol fwyaf arwyddocaol yw bod rhieni'n cadw eu hawl i sicrhau bod eu hapêl yn cael ei chlywed a bod plant a phobl ifanc yn gallu sicrhau lle mewn ysgol cyn gynted â phosibl er gwaethaf anawsterau ymarferol neu gcyfyngiadau a osodir gan bandemig y Coronafeirws.

Pan nad oes modd cynnal apelau wyneb yn wyneb bydd effeithiau negyddol posibl ar rai grwpiau a allai gael eu hallgáu'n ddigidol o ran cymryd rhan mewn apelau rhithiol, ond gallant ddefnyddio'r opsiwn o ddatganiad ysgrifenedig a chyflwyno eu hachos felly. Mae sylwadau gan awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn ynghylch y newidiadau dros dro, sydd wedi bod ar waith ers mis Mai 2020, wedi bod yn gadarnhaol iawn ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw adborth negyddol gan rieni mewn perthynas â'r newidiadau dros dro.

## **7.3 O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd y newidiadau dros dro yn cael effaith gadarnhaol ar les rhieni a phlant drwy ei gwneud yn bosibl parhau i gynnal apelau, sy'n golygu bod plant yn gallu sicrhau lle mewn ysgol cyn gynted â phosibl, gan gadw cyfnod o bryder ac ansicrwydd mor fyr ag y bo modd.

Anogir Clerc y Panel Apêl i ymgysylltu ag apelwyr cyn y gwrandawriad i ddeall eu gofynion a sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y broses.

Mae hyn yn cynnwys wrth ystyried presenoldeb a chynrychiolaeth apelydd yn y gwrandawriad pan fo hyn yn cynnwys cymryd rhan o bell a'r ddyletswydd i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen. Bydd y clerch yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â cheisiadau am addasiadau rhesymol yn cael eu cofnodi fel rhan o gofnod yr apêl, a'u cadarnhau gyda'r apelydd yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad apêl.

Mae awdurdodau derbyn yn gyfarwydd iawn â deall a darparu ar gyfer anghenion teuluoedd yn eu hardal, gan gynnwys darpariaeth BSL, cyfieithwyr ar y pryd a phapurau apêl mewn fformatau eraill.

Mae'r Cod Apelau yn darparu y caiff ffrind, cynghorydd, cyfieithydd neu arwyddwr ddod gyda'r apelydd a'i gynrychioli a chaiff siarad ar ei ran. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol os oes angen.

Clerc y Panel Apêl sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

#### **7.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?**

Bydd y Rheoliadau'n cael eu hadolygu'n barhaus. Byddwn yn parhau i gysylltu ag awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn ynghylch gweithredu'r newidiadau dros dro ac yn monitro unrhyw adborth a dderbynnir oddi wrth rieni. Daw **Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelu Derbyn (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2021** i ben ddiwedd mis Medi 2022.